NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Uwchsain dwysedd uchel wedi'i ffocysu ar gyfer glawcoma

25 Medi 2019

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon. Mae hyn am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Caiff glawcoma ei achosi fel arfer gan hylif sy'n cronni yn y llygad, gan gynyddu'r pwysedd. Mae hyn yn niweidio'r nerf sy'n cysylltu'r llygad â'r ymennydd (nerf optig) a gall arwain yn raddol at golli golwg.

Yn ystod y driniaeth hon, defnyddir uwchsain dwysedd uchel i ddinistrio ychydig bach o'r feinwe sy'n creu'r hylif. Y nod yw lleihau faint o hylif a gaiff ei ryddhau i'r llygad, a lleihau'r pwysedd. Gall lleihau pwysedd y llygad arafu neu atal niwed pellach i'r golwg.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan arweiniad IechydTech NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-7993-6



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.